Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol

## Canllaw i Geiswyr Grantiau

(2025-2026)

Mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn gynllun grant cyfalaf sy'n cael ei weithredu gan Lywodraeth Cymru. Mae grantiau ar gael ar ddwy lefel; grantiau bach dan £25,000 a grantiau mwy o hyd at £300,000. Gellir defnyddio'r grantiau i wella cyfleusterau cymunedol sy'n ddefnyddiol i bobl yn y gymuned, ac yn cael eu defnyddio'n helaeth ganddynt.

Mae'r Rhaglen yn agored i fudiadau'r sector gwirfoddol a chymunedol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol. Mae'r Rhaglen yn canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd, sicrhau ffyniant i bawb a datblygu cymunedau cadarn lle mae pobl yn cael eu cynnwys a'u grymuso. Mae disgwyl i bob ymgeisydd weithio gyda phartneriaid a all ddod o'r sector cyhoeddus, preifat neu'r trydydd sector.

**Darllenwch y nodiadau canllaw hyn a thudalennau'r Cwestiynau Cyffredin yn ofalus cyn llenwi ac wrth lenwi'r *ffurflen gais am grant bach* neu'r *ffurflen datgan diddordeb* os ydych yn chwilio am grant mwy.**

Mae'n bosibl y bydd y canllaw hwn yn cael ei ddiwygio o dro i dro. Bydd y fersiwn diweddaraf bob amser ar gael ar ein gwefan drwy'r ddolen isod. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau mai'r canllaw rydych chi'n ei ddefnyddio yw'r fersiwn diweddaraf.

Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol | LLYW.CYMRU

**Pwy sy'n gymwys i wneud cais am y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol?**

Rydym yn chwilio am geisiadau sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r ymgeisydd arweiniol fod yn fudiad cymunedol neu yn y sector gwirfoddol. Er enghraifft, grŵp cymunedol, elusen gofrestredig neu fenter gymdeithasol. Rydym yn awyddus i annog gweithio mewn partneriaeth ac felly yn ei gwneud yn ofynnol bod ceisiadau'n cynnwys partneriaid yn y sector cyhoeddus, preifat neu'r trydydd sector.

Fel gofyniad sylfaenol, mae'n rhaid i'r prif ymgeisydd/mudiad arweiniol allu dangos ei fod yn fudiad sydd wedi sicrhau'r canlynol:

- Cyfansoddiad neu restr o reolau, wedi'u dyddio a'u llofnodi fel rhai 'mabwysiedig' gan y Cadeirydd, neu uwch swyddog arall ar ran y Bwrdd neu'r Ymddiriedolwyr;
- Cyfrif banc, yn ei enw ei hun, a oedd yn gofyn am o leiaf dau lofnodwr (nad ydynt yn perthyn);
- Tystiolaeth i ddangos bod unrhyw elw sy'n cael ei ddosbarthu yn fach iawn h.y. wedi'i gyfyngu i'r elw o'r cyfalaf a fuddsoddwyd gyda'r llog lleiaf posibl. Dylai manylion y polisi hwn fod wedi'u nodi yng nghyfansoddiad neu reolau eich mudiad;
- Llai na £150,000 mewn cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig. Rhaid i ymgeiswyr sydd â dros £150,000 mewn cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig hefyd ddarparu gwybodaeth am bolisi cronfeydd wrth gefn y mudiad. Dylai hyn gynnwys p'un ai a yw'r cronfeydd hynny'n cael eu buddsoddi yn y prosiect ai peidio, ac os nad ydynt, pam hynny.

<u>Defnyddwyr</u>

Mae **defnyddwyr** yn sefydliad rydych yn gweithio gydag ef i weithredu eich cyfleuster ac i gyflawni eich prosiect. Er enghraifft: mae grŵp cymunedol arall yn defnyddio eich cyfleuster yn rheolaidd ac yn cynnig cyfleoedd i bobl leol gael gafael ar hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth, neu ddim ond i gymdeithasu ag eraill. Mae cefnogaeth gan bartneriaid yn eich helpu chi i ddangos bod galw am eich prosiect a bod y cyfleuster cymunedol rydych yn gobeithio ei wella yn cael ei ddefnyddio'n helaeth.

Bydd angen i'r holl geisiadau ddangos sut mae'r gymuned wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r prosiect a sut bydd yn parhau i gymryd rhan yn y ffordd y bydd y cyfleuster yn cael ei weithredu yn y dyfodol. Gall partneriaid eich helpu chi i ddarparu'r dystiolaeth hon.

Gallech chi hefyd fod yn gweithio gyda eich Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd Lleol, Cyngor Gwirfoddol Sirol neu un o raglenni Llywodraeth Cymru fel Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg neu'r Rhaglen Cymunedau am Waith. Bydd cael cymorth gan bartner o'r fath yn helpu i ddangos fod eich prosiect yn bwysig yn eich ardal. Bydd y math hwn o bartner hefyd yn eich helpu chi i ddangos na fydd eich prosiect yn dyblygu gwasanaethau sydd ar gael yn rhywle arall yn y gymuned.

## Pwy nad ydynt yn gymwys i wneud cais?

**Ni** fyddwn yn derbyn ceisiadau gan y mathau canlynol o sefydliadau; er y gallant fod yn bartneriaid mewn unrhyw brosiect lle mae'r cais yn cael ei arwain gan fudiad cymunedol neu yn y sector gwirfoddol neu fenter gymdeithasol:

- Awdurdodau lleol;
- Byrddau iechyd;
- Cynghorau tref a chymuned;
- Corff cyhoeddus arall; a
- Sefydliadau a busnesau yn y sector preifat.

## Meini prawf cymhwysedd ychwanegol

Rhaid i bob cais am gyllid ddangos bod gan y mudiad arweiniol hawl gyfreithiol i gyflawni'r gwaith arfaethedig. Gellir dangos tystiolaeth o hyn drwy brofi mai'r mudiad yw perchennog cyfreithiol yr adeilad fydd yn cael ei atgyweirio neu'r tir y bydd unrhyw estyniad neu adeilad newydd yn sefyll arno. Os bydd angen morgais ar gyfer y tir neu'r adeilad, bydd angen i ymgeiswyr ddangos bod y benthyciwr yn cydsynio â'r gwaith arfaethedig.

Os nad y mudiad arweiniol sy'n berchen ar y tir neu'r adeilad fydd yn cael ei wella, yna mae'n rhaid i geisiadau gynnwys tystiolaeth o brydles tymor hir (gydag o leiaf 10 mlynedd yn weddill) am rent fforddiadwy. (Dim ond prydles gydag o leiaf pum mlynedd yn weddill fydd ei angen ar gyfer ceisiadau am grant sydd o dan £25k.) Bydd angen i ymgeiswyr hefyd gael caniatâd ysgrifenedig y landlord i gyflawni'r gwaith arfaethedig.

## Pridiant Cyfreithiol

Byddwn yn ceisio cofrestru pridiant cyfreithiol ar unrhyw gyfleuster a ariennir gan y Rhaglen sy'n eiddo i'r ymgeisydd. Mae'r pridiant hwn yn caniatáu i ni adennill cyllid os aiff rhywbeth o'i le a bod y prosiect yn dod i ben, gan adael y gymuned heb fynediad i'r cyfleuster. Gallwch ofyn am gael gwared ar y pridiant bum mlynedd ar ôl cwblhau'r gwaith a ariennir gan y grant.

## Beth y gellir ei ariannu dan Raglen Cyfleusterau Cymunedol?

Cynllun grant cyfalaf yn unig yw'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol. Mae grantiau ar gael i brynu neu wella cyfleusterau cymunedol yn ffisegol; gall hynny gynnwys tir ac adeiladau.

Ystyr **cyfalaf** yw prynu asedau, gwaith ffisegol, a'r ffioedd proffesiynol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r gwaith ffisegol (gan gynnwys TAW nad ellir ei hawlio yn ôl).

Bydd prynu offer yn gymwys pan fydd prosiect yn cynnwys gosod cyfleuster newydd fel cegin neu ystafell TG. Ni fydd y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn talu am brynu cerbydau, **cyfnewid** dodrefn, cyfarpar na diweddaru TGCh.

Nid yw'r cynllun yn darparu grantiau ar gyfer costau **Refeniw**, gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â datblygu cynllun busnes, astudiaeth ddichonoldeb; prosiect dylunio yn unig; neu gostau staff a chostau gweithredu eraill.

Ni fydd y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn ystyried ceisiadau ôl-weithredol h.y. pan fydd y gwaith wedi dechrau cyn i'r cyllid gael ei ddyfarnu.

Rhaid i'r holl geisiadau gael eu cyflwyno ar y cyd â chopi o gyfrifon blynyddol diweddaraf yr ymgeisydd pan fyddant ar gael. Rydym yn cydnabod na fydd y wybodaeth hon ar gael gan rai mudiadau sydd newydd eu ffurfio eto. Yn yr achosion hyn, dylai ceisiadau gynnwys amcanestyniadau ariannol.

## Meini Prawf Cyllido Cyffredinol

Mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn croesawu ceisiadau gan gymunedau ledled Cymru. Bydd angen i bob cais ddangos bod y cyfleuster sy'n cael ei wella yn gallu dangos y canlynol:

- Ei fod yn angenrheidiol ac yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan y gymuned ac, neu fydd yn cynnig gwasanaethau nad ydynt yn cael eu dyblygu yn yr ardal gyfagos;
- Ei fod yn darparu gwasanaethau neu'n cynnal gweithgareddau sy'n cynnig cyfleoedd lleol i bobl wella eu bywydau. Gallai hyn gynnwys mynediad i hyfforddiant, cymorth cyflogadwyedd, gweithgareddau iechyd a lles neu wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar;
- Ei fod yn cael ei gefnogi gyda chymorth y gymuned leol a'i ddatblygu ar y cyd â hi;
- Ei fod yn gynaliadwy dros y tymor canolig i'r hirdymor (o leiaf 3-5 mlynedd).

## Cynnwys y Gymuned

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod cymunedau'n rhan o'r broses o ddatblygu prosiectau a mentrau lleol sy'n cael cyllid gan y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol. Nod y term **cynnwys y gymuned** yw cynnwys ystod eang o lefelau a mathau o ymgysylltu gan bobl leol, gan gynnwys:

- Rhannu gwybodaeth, er mwyn sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn gwybod am y prosiect arfaethedig;
- Grymuso pobl leol, datblygu eu sgiliau a'u hyder a darparu cyfleoedd iddynt gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau yn lleol;
- Cyfranogiad gweithgar gan bobl leol yn y prosiect, gan gynnwys cymryd rhan mewn cyfarfodydd gwneud penderfyniadau a strwythurau ffurfiol megis pwyllgorau rheoli. Gall hyn hefyd gynnwys darparu cyfleoedd gwirfoddoli i bobl leol.

Bydd disgwyl i fudiadau hyrwyddo egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau dynol. Ni ddylai mudiadau oddef arferion gwahaniaethol - e.e. hiliaeth, neu rywiaeth - na chaniatáu i adnoddau Llywodraeth Cymru gael eu defnyddio i wneud hynny.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddileu anghydraddoldeb o bob math. Rydym am sicrhau bod pob un o'n prosiectau yn agored ac yn hygyrch i bob aelod o'r gymuned waeth beth am hil, crefydd, rhyw, rhywioldeb, ailbennu rhywedd neu anabledd.

Er nad yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cwmpasu gweithgareddau grwpiau'r sector gwirfoddol, credwn fod yr egwyddorion a amlinellir yn y Ddeddf yn berthnasol iawn i'r ffordd yr ydym am weld cymunedau'n cydweithio â’i gilydd.

Mae'r Ddeddf yn amlinellu pum ffordd o weithio sydd yr un mor bwysig wrth ddatblygu cais ar gyfer y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol, sef:

- **Cynnwys** – rydym am weld ceisiadau sy'n cynnwys y gymuned yn eu cynlluniau datblygu.
- **Tymor Hir** – rydym am gael prosiectau a fydd yn gwasanaethu ac yn cefnogi anghenion y gymuned yn y tymor hir.
- **Integreiddio** – nid ydym am weld ceisiadau sy’n dyblygu gwaith, rydym am weld ceisiadau sy'n gweithio i ategu gweithgareddau a gwasanaethau sydd eisoes ar gael i'r gymuned.
- **Atal** – mae cyfleusterau cymunedol lleol yn cefnogi ac yn grymuso eu cymunedau. Maent yn darparu cymorth i atal problemau rhag gwaethygu, maent yn galluogi pobl i gael cyngor a chyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol. Rydym am glywed am y rhain yn eich ceisiadau.
- **Cydweithredu** – credwn ei bod yn bwysig i grwpiau cymunedol sy'n gweithredu cyfleusterau gydweithredu â grwpiau eraill, â defnyddwyr, ag awdurdodau lleol, â byrddau iechyd ac â busnesau lleol.

### Mynd i'r afael â'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur

Gall cymunedau chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gefnogi datgarboneiddio a helpu i ddiogelu mannau gwyrdd cymunedol. Gall eu gweithredoedd helpu i leihau ein hôl troed carbon ac annog bioamrywiaeth. Rydym am annog pob ymgeisydd i ystyried a all eu prosiect helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn. Er enghraifft:

- Os ydych chi'n chwilio am gyllid i wella gwres, goleuadau neu insiwleiddio, a ydych chi'n ystyried opsiwn sy'n amgylcheddol gynaliadwy?
- A ydych chi'n ystyried defnyddio technolegau newydd i wella cynaliadwyedd amgylcheddol y cyfleuster? Gall hyn hefyd ostwng costau rhedeg ar gyfer y dyfodol.

- A fydd eich cyfleusterau'n cynnig gwasanaethau sy'n lleihau'r angen i bobl leol deithio y tu allan i'r ardal?
- A oes gan eich cyfleuster fan gwyrdd fel gardd y gellid ei defnyddio er budd y gymuned neu i annog bywyd gwyllt lleol?

Dywedwch wrthym sut mae eich prosiect yn ystyried y materion hyn.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

UK Green Building Council: Net Zero Carbon Buildings Framework

https://severnwye.org.uk/projects/sustainable-organisations/

Mae grantiau ar gael ar gyfer gwaith cyfalaf i ddarparu neu i wella **cyfleusterau cymunedol** sy'n cynnig o leiaf un o'r gweithgareddau/gwasanaethau canlynol sy'n helpu i gynyddu cyfleoedd a lleihau anghydraddoldeb:

- Darparu, diogelu neu ail-gyflwyno gwasanaeth cymunedol gwerthfawr megis mynediad at undeb credyd, swyddfa'r post, llyfrgell, neu siop gymunedol;
- Sicrhau y gall pobl leol ddefnyddio gwasanaethau sy'n helpu i osgoi'r angen iddynt deithio y tu allan i'r ardal;
- Gweithgaredd seiliedig ar sgiliau neu hyfforddiant arall sy'n arwain at gymhwyster cydnabyddedig, lleoliadau gwaith neu gyfleoedd gwirfoddoli sy'n gwella rhagolygon gwaith unigolion;
- Cynnal gwasanaethau iechyd lleol fel gweithgareddau ymarfer corff neu fyw'n iach gan gynnwys gweithgareddau wedi'u hanelu at bobl hŷn;
- Helpu i greu cydlyniant cymunedol drwy ddarparu ffocws ar gyfer digwyddiadau cymunedol; cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu neu wirfoddoli yn y gymuned:
- Helpu i greu rhwydweithiau cymdeithasol cryf sy'n caniatáu i bobl weithio gyda'i gilydd yn lleol gan eu galluogi i ddylanwadu ar benderfyniadau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol;
- Gweithgareddau i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd neu broblemau iechyd meddwl lefel isel, er enghraifft boreau coffi, clybiau cinio, neu sesiynau galw heibio eraill;
- Darparu mynediad cymunedol i adnoddau TG, mynediad at fand eang a/neu hyfforddiant TG i gynorthwyo cynhwysiant digidol;
- Gweithgareddau sy'n hyrwyddo neu'n annog defnyddio'r Gymraeg ac yn amddiffyn yr Iaith Gymraeg;
- Addasiadau ffisegol i wella mynediad i adeiladau cymunedol i bobl anabl, gan gynnwys rampiau, lifftiau, toiledau hygyrch a chyfleusterau ar gyfer lleoedd newid;

- Cynnal banc bwyd/dillad/dodrefn, cydweithfa fwyd, mynediad at wasanaethau cyngor neu weithgaredd tebyg arall;
- Gweithgareddau a gwasanaethau sy'n targedu digartrefedd fel Lloches Nos neu fynediad at dai neu gyngor arall;
- Addasiadau er mwyn galluogi'r cyfleuster i ddarparu gofal plant;
- Gweithgarwch a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd, megis effeithlonrwydd ynni neu fesurau carbon isel fel systemau gwresogi neu oleuo ecogyfeillgar, inswleiddio, ffenestri a drysau newydd, neu dechnoleg newydd fel paneli solar;
- Gweithgarwch a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r Argyfwng Natur, megis gerddi cymunedol sy'n cefnogi bioamrywiaeth, pryfed peillio neu ddiogelu mannau gwyrdd;
- Gwneud y gorau o'r cyllid sydd ar gael drwy osgoi dyblygu gwasanaethau a gweithio gyda phartneriaid lleol eraill yn y gymuned, y sectorau cyhoeddus a phreifat i wella cyfleoedd bywyd pobl leol.

**Gwirfoddolwyr a Gwirfoddoli**

Gall pobl o bob oed a gallu gael budd sylweddol o'r profiad o wirfoddoli, boed hynny yn sgil profiad gwaith neu barhau'n weithgar ac yn rhan o fywyd y gymuned.  Mae mudiadau yn cael budd enfawr o amser gwirfoddolwyr hefyd - heb hyn, ni fyddai'n bosibl iddynt ddarparu llawer o wasanaethau a gweithgareddau.

Mae gweithio gyda gwirfoddolwyr hefyd yn helpu i ddangos sut mae prosiect wedi ymgorffori ym mywyd y gymuned.  Caiff ymgeiswyr eu hannog i ddangos tystiolaeth o sut mae'r mudiad yn gweithio gyda gwirfoddolwyr. Dylai ymgeiswyr hefyd ystyried a ydynt yn gweithio'n gynhwysol gyda gwirfoddolwyr sy'n cynrychioli natur amrywiol y gymuned ehangach.   Dylai ceisiadau gynnwys sut mae'r mudiad yn cefnogi gwirfoddolwyr i sicrhau eu bod yn cael y profiadau gorau ac yn cael eu diogelu'n briodol.  Mae rhagor o wybodaeth am sut gall y Cynghorau Gwirfoddol Sirol lleol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru eich helpu i ddatblygu polisïau ar wirfoddoli a diogelu ar gael isod:

https://wcva.cymru/safeguarding/

https://wcva.cymru/training-info/governance-safeguarding/

A dyma'r ddolen ar gyfer Gwirfoddoli Cymru:

https://volunteering-wales.net/vk/volunteers/index-covid.htm

Mae gan y ddolen hon adnodd ar gyfer gwirfoddolwyr a sefydliadau gwirfoddoli:

https://wcva.cymru/volunteering/

**Beth yw'r grant lleiaf/mwyaf sydd ar gael gan y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol?**

Mae dwy lefel o grantiau ar gael:

- Grantiau bach o hyd at £25,000, gyda'r lleiaf yn £5,000.
- Grantiau mwy o hyd at £300,000, gyda'r lleiaf yn £25,001.

**A fydd angen i mi sicrhau arian cyfatebol ar gyfer fy nghais?**

Dylech geisio sicrhau arian cyfatebol cyfalaf ar gyfer eich prosiect h.y. ni ddylech ofyn am grant i dalu am gyflawni 100% o'r gwaith ffisegol. **Nid** oes angen i'r arian cyfatebol fod yr un faint â swm y grant y gofynnwyd amdano, gall fod yn fwy neu'n llai na'r swm y gwnaed cais amdano. Disgwyliwn i bob ymgeisydd wneud ei orau i sicrhau cymaint o arian cyfatebol â phosibl.

Byddwn hefyd yn gofyn i chi sut byddwch yn ariannu eich costau refeniw, sef costau gweithredu eich cyfleuster. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i ddangos pa mor gynaliadwy yw'r prosiect. Does dim modd defnyddio cyllid refeniw fel arian cyfatebol ar gyfer y prosiect cyfalaf.

Cronfa grant dewisol yw'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol. Ni allwn warantu y bydd pob cais a allai gael ei ariannu yn cael cyllid. **Rydym yn gwybod y bydd nifer y ceisiadau ar gyfer y Rhaglen yn fwy na'r swm y gallwn ei ddyrannu sy'n golygu efallai bydd yn rhaid i ni wrthod rhai ceisiadau da gan nad oes gennym ddigon o arian i ariannu bob un ohonynt.**

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod ei holl gynlluniau grant yn darparu'r gwerth gorau posibl am arian cyhoeddus. O ganlyniad, byddem yn hoffi gweld ceisiadau gyda chymaint o arian cyfatebol ag y bo modd gan fod hyn yn caniatáu i'r arian cyhoeddus fynd ymhellach. Er nad ydym yn pennu isafswm arian cyfatebol, bydd y prosiectau hynny sydd wedi sicrhau cyllid arall yn sgorio'n uwch yn erbyn y meini prawf cyllido a nodir isod.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am amrywiaeth o ffynonellau ariannu a allai fod yn addas ar gyfer eich prosiect drwy: https://funding.cymru/.

**Beth yw'r broses ymgeisio?**

- Gellir cyflwyno ceisiadau unrhyw adeg, a gellir eu cyflwyno yn Gymraeg neu'n Saesneg.

- Dylid cyflwyno ceisiadau a gwybodaeth ategol yn electronig. Os cewch anawsterau gyda hyn, cysylltwch â ni.

- Bydd ceisiadau unigol yn mynd rhagddynt mor gyflym ag y bo modd, yn seiliedig ar ba mor gyflym y derbynnir yr wybodaeth angenrheidiol gan yr ymgeiswyr.

- Gall mudiadau gyflwyno mwy nag un cais ond dim mwy na thri mewn unrhyw gyfnod o dair blynedd. Gellir rhoi uchafswm o £300,000 i un mudiad o fewn cyfnod o dair blynedd.

- Ni fydd mudiad y mae ei geisiadau ar gyfer prosiectau tebyg wedi cael eu gwrthod **dair gwaith** yn gymwys i wneud cais arall ar gyfer y rhaglen.

- **Bydd angen ymweliadau safle ar gyfer pob prosiect dros £25,000.**

**Ceisiadau dan £25,000**

Mae'r ffurflen gais ar gyfer y grant dan £25,000 wedi'i llunio i fod yn gymharol syml. Rydym eisiau rhoi cynnig i bob math o fudiadau, beth bynnag eu gallu, i gael mynediad at gyllid ar y lefel hon.

Bydd y ffurflen gais yn profi pa mor gymwys yw'r mudiad arweiniol ac yn sicrhau bod y cynnig yn cyd-fynd â meini prawf y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol sydd wedi'u nodi uchod. Bydd hefyd yn ein galluogi ni i ystyried p'un ai a oes ymgysylltu cymunedol ystyrlon wedi bod wrth ddatblygu'r prosiect. Dylai mudiadau sy'n cyflwyno cais am grant dan £25,000 sicrhau bod cyfrifon blynyddol diweddaraf y mudiad yn cael eu darparu hefyd pan fyddant ar gael (neu, os nad ydynt, amcanestyniadau ariannol).

Bydd yn rhaid i ymgeiswyr nodi o leiaf tri defnyddwyr. Yn ystod ein proses o asesu'r ceisiadau byddwn yn siarad â'ch defnyddwyr ac adrannau eraill Llywodraeth Cymru sydd â diddordeb yn y cynigion i drafod y prosiect. Mae'r ffurflen yn galluogi ymgeiswyr i sôn wrthym am y prosiect a'r hyn y maent yn gobeithio ei gyflawni mewn 500 gair neu lai. Cadwch at y terfyn geiriau gan y bydd hyn yn ein helpu i brosesu ceisiadau cyn gynted ag y bo modd.

Bydd y ceisiadau'n cael eu sgorio yn unol â'r **meini prawf cyllido** canlynol:

| **Maes Asesu** | **Sgôr uchaf** |
|---|---|
| | |
| **Cyd-fynd â Meini Prawf y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol** | **10** |
| **Cynnwys y Gymuned** | **15** |
| **Arian Cyfatebol** | **15** |
| **Cydweithio â Phartneriaid** | **10** |
| **Gallu i Ddarparu'r Prosiect** | **10** |
| **Budd i'r Gymuned** | **10** |

| | |
|---|---|
| **Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldeb** | **10** |
| **Cynaliadwyedd y Prosiect** | **10** |
| **Argyfwng Hinsawdd/Natur** | **10** |
| **Cyfanswm** | **100** |
| | |

Ni fydd unrhyw brosiect sy'n sgorio llai na 60 yn erbyn y meysydd uchod yn cael ei ariannu gan ein bod yn ystyried na fyddai unrhyw brosiect sy'n cael sgôr o dan y lefel hon yn cael ei ddatblygu'n ddigonol. Fodd bynnag, ni fydd sicrhau'r sgôr isaf posibl o chwe deg yn gwarantu y bydd grant yn cael ei ddyfarnu. Y ceisiadau gyda'r sgoriau uchaf fydd yn cael eu hariannu gyntaf, a bydd nifer y ceisiadau sy'n denu cyllid yn dibynnu ar swm y cyllid sydd ar gael a faint o geisiadau da sy'n dod i law.

Bydd yn rhaid darparu copi o gyfrifon blynyddol diweddaraf (os ydynt ar gael) gyda ffurflenni cais gorffenedig ar gyfer grantiau dan £25,000. Dylai mudiadau ddarparu copïau electronig o ddogfennau atodol i communityfacilitiesproghelp@gov.wales. Mae'n rhaid i'r ffurflen gais wedi'i llofnodi gan ddau lofnodwr perthnasol (nad ydynt yn perthyn) gael ei sganio a'i chyflwyno ar ffurf e-bost.

Rydym yn anelu at ymateb i bob cais o dan £25,000 **o fewn 60 diwrnod gwaith**. Efallai na fydd hyn yn bosibl bob amser a bydd yn dibynnu ar nifer y ceisiadau sy'n cael eu prosesu ar unrhyw adeg benodol. Grant dewisol yw'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol a gwyddom y bydd yn rhaid i ni wneud rhai penderfyniadau ariannu anodd. Nid ydym yn disgwyl cael digon o arian i dalu am yr holl geisiadau y byddai modd eu hariannu.

### Ceisiadau ar gyfer rhwng £25,001 a £300,000

Mae dau gam i'r broses ymgeisio ar gyfer y grantiau mwy; cam Datganiad o Ddiddordeb a cham Cais Llawn.

Datganiad o Ddiddordeb

Bwriad y cam Datganiad o Ddiddordeb yw atal mudiadau nad yw eu ceisiadau yn debygol o fod yn llwyddiannus rhag ymrwymo adnoddau gwerthfawr i ddatblygu cais llawn. Ffurflen gais fer yw'r Datganiad o Ddiddordeb a fydd yn profi pa mor gymwys yw'r mudiad arweiniol; sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â meini prawf y cynllun ac a fydd yn ein galluogi ni i ystyried p'un ai a oes ymgysylltu cymunedol ystyrlon ar y gweill. Unwaith eto, bydd y Datganiadau o Ddiddordeb yn cael sgôr yn unol â'r meysydd asesu a nodir uchod.

Bydd mudiadau sydd â sgôr Datganiadau o Ddiddordeb 60 ac uwch yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais llawn. Rhoddir adborth i ymgeiswyr llwyddiannus i'w helpu i nodi meysydd lle bydd angen mwy o wybodaeth ar y cam cais llawn.

Darperir adborth hefyd er mwyn ceisio helpu ymgeiswyr aflwyddiannus i wella eu Datganiadau o Ddiddordeb cyn eu hailgyflwyno (ar gais) ar gyfer y ceisiadau hynny sy'n sgorio o dan y lefel isaf.

Bydd yn rhaid i ymgeiswyr nodi o leiaf tri phartner ar y cam hwn. Yn ystod ein proses o asesu'r Datganiad o Ddiddordeb byddwn yn siarad â'ch partneriaid ac adrannau eraill Llywodraeth Cymru sydd â diddordeb yn y cynigion er mwyn trafod y prosiect. Bydd y Datganiad o Ddiddordeb yn caniatáu i ymgeiswyr sôn wrthym am y prosiect a'r hyn y maent yn gobeithio ei gyflawni mewn 500 gair neu lai.

Dylai Datganiadau o Ddiddordeb sydd wedi'u cwblhau gynnwys copi o gyfrifon blynyddol diweddaraf y mudiad (os ydynt ar gael) a dylid eu cyflwyno yn electronig i flwch post Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn: communityfacilitiesproghelp@gov.wales

Byddwn yn anelu at ddarparu penderfyniad ynghylch bob Datganiad o Ddiddordeb **o fewn 30 diwrnod gwaith**. Unwaith eto, gall hyn gymryd mwy o amser os bydd nifer y ceisiadau yn uchel.

Cais Llawn

Bydd mudiadau sy'n cael gwahoddiad i gyflwyno Cais Llawn yn cael cyfnod o dri mis i gyflwyno cais manwl y mae'n rhaid iddo gynnwys **cyfrifon blynyddol, ac os nad ydynt yn bodoli yna** rhagamcanion llif arian am o leiaf tair blynedd. Bydd hyn yn ein galluogi ni i asesu cynaliadwyedd y cais yn y tymor canolig i'r tymor hir.

Bydd ceisiadau llawn yn cael eu hasesu fesul un yn unol â'r meini prawf a gyhoeddwyd fel yr amlinellir uchod. Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol fydd yn gwneud y penderfyniadau ariannu terfynol. Bydd yr amserlen penderfyniadau ar gyfer y cam cais llawn yn dibynnu ar ba mor gyflym y bydd prosiectau unigol yn darparu gwybodaeth.

Mae'r ffurflen gais lawn yn rhoi rhagor o wybodaeth am y gofynion. Dylai ymgeiswyr ddarparu'r wybodaeth yn electronig i communityfacilitiesproghelp@gov.wales.

Efallai y bydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus ddarparu tystiolaeth neu wybodaeth ychwanegol megis canlyniadau ceisiadau am arian cyfatebol neu gadarnhad am ganiatâd cynllunio.

Bydd pob ymgeisydd nad yw'n llwyddiannus yn cael adborth cynhwysfawr i gyd-fynd â'r mudiad unigol. Disgwylir i fudiadau sy'n ailgyflwyno yn dilyn cais aflwyddiannus ofyn am adborth a sicrhau eu bod yn defnyddio'r adborth i wella'r cais cyn iddo gael ei ailgyflwyno.

## Targedau Prosiectau

Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro sut mae'r holl geisiadau llwyddiannus yn cael eu darparu o dan y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol. Rydym yn awyddus i allu pennu effaith y gwelliannau ar y bobl sy'n defnyddio'r cyfleuster.

Mae'r ffurflenni cais ar gyfer y grant o dan £25,000 a'r grant o dan £300,000 yn gofyn i fudiadau ddweud wrthym beth sy'n digwydd yn eu cyfleusterau ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn gofyn am wybodaeth am yr hyn mae ymgeiswyr yn disgwyl fydd yn newid yn dilyn y gwelliannau, er enghraifft, a ydynt yn disgwyl cael rhagor o ddefnyddwyr, neu a fydd modd cynnig gweithgareddau newydd. Faint o bobl fydd yn elwa?

Dylech ddefnyddio iaith syml i roi datganiad o effaith yr hyn rydych yn ei wneud (h.y. pam eich bod yn gwneud rhywbeth). Dylai amlinellu'r newidiadau rydych yn bwriadu iddynt ddigwydd yn y gymuned a'r amserlen debygol ar gyfer y newid. Rhaid iddo fod yn ddatganiad y gellir ei ddefnyddio i fesur cynnydd. Dylai'r targedau fod yn bethau y gellir eu cyflawni. Dylech anelu am leiafswm o dri tharged ar gyfer grantiau llai a lleiafswm o bump ar gyfer ceisiadau mwy.

Dylech geisio dangos effaith yr amrywiaeth o weithgareddau a gynigir, gan gynnwys y manteision tymor hwy. Er enghraifft:

- Faint o bobl sydd bellach wedi cael cyfle i fynd yn ôl i weithio o ganlyniad i hyfforddiant achrededig maent wedi'i gael eleni, a sut mae hyn o fudd iddyn nhw/y gymuned?
- Faint o grwpiau defnyddwyr newydd sy'n defnyddio'r cyfleuster nad oeddent yn gwneud hynny chwe mis yn ôl, a pham mae hyn yn bwysig/sut mae o fudd i'r gymuned?
- Faint mwy o bobl sydd bellach yn cynnal sesiynau ymarfer corff nad oeddent yn gwneud hynny yn y flwyddyn flaenorol a sut mae hyn yn fudd iddyn nhw/y gymuned?

Bydd yr holl geisiadau llwyddiannus yn cael eu monitro am gyfnod o bum mlynedd ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau.

### Lluniau

Mae lluniau yn dangos tu mewn a thu allan y cyfleuster yn ddefnyddiol iawn yn ystod asesiad a dylid eu cyflwyno yn electronig.

### Caffael

Rhaid i unrhyw waith sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflwyno prosiect gael ei gaffael yn briodol a rhaid cymryd gofal i sicrhau bod pob ymarfer caffael yn deg, yn agored ac yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n foesegol, yn gynaliadwy, yn atebol ac yn cydymffurfio â rhwymedigaethau gweithdrefnol, cyfreithiol a rhyngwladol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am dystiolaeth o'r broses gaffael yn ystod proses werthuso'r cais llawn.

Yr hyn y mae hynny'n ei olygu yw:

- Ar gyfer grantiau o dan £25,000, rhaid cael tri dyfynbris ar gyfer y gwaith sy’m cael ei ariannu; ac

Ar gyfer grantiau mwy, rhaid cynnal ymarfer tendro cyn i'r grant gael ei ryddhau.

**A allaf gael help i lenwi fy nghais?**

Yn aml, mae modd i Gynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS) ddarparu cyngor cyllido. Er na allant warantu cefnogaeth i ddatblygu i bob ymgeisydd byddant yn darparu cymaint o gymorth ac amser ac adnoddau ag y bo modd.

Gallwch ddod o hyd i'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol drwy edrych ar wefan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn:

https://thirdsectorsupport.wales

Mae WCVA a Chynghorau Gwirfoddol Sirol hefyd yn darparu cymorth ynghylch diogelu ar gyfer mudiadau gwirfoddol a chymunedol bach. Mae dolen ar gael yma:

https://wcva.cymru/safeguarding

Mae WCVA a Chynghorau Gwirfoddol Sirol hefyd yn darparu cymorth ynghylch polisïau gwirfoddoli. Gallwch gael help yma:

http://www.gwirfoddolicymru.net/landing/

Gall mentrau cymdeithasol gael cymorth drwy Fusnes Cymdeithasol Cymru yn:

https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy

**A fydd fy nghais yn cael ei drin yn gyfrinachol?**

Bydd angen i ni drafod eich cais gyda phobl eraill yn Llywodraeth Cymru e.e. ceisiadau ar gyfer prosiectau sy'n gweithio gyda Teuluoedd yn Gyntaf neu Dechrau'n Deg.

Byddwn hefyd yn cysylltu â'r partneriaid a nodwyd gennych yn eich cais i drafod eich prosiect e.e. eich awdurdod lleol neu fwrdd iechyd lleol. Bydd gwybodaeth am geisiadau llwyddiannus hefyd yn cael ei defnyddio mewn deunydd cyhoeddusrwydd.

O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae dyletswydd ar bob corff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, mewn rhai amgylchiadau, i gadarnhau ar gais a yw'n meddu ar wybodaeth benodol ac, i rannu’r wybodaeth hon.

**Pryd byddaf yn gwybod canlyniad fy nghais?**

Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ceisiadau am y grant dan £25,000, y Datganiadau o Ddiddordeb a'r Ceisiadau Llawn. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am ganlyniad ceisiadau llawn cyn gynted ag y bo modd. Mae'n bosibl y bydd prosiectau'n cael ymweliad yn ystod y broses ymgeisio os ystyrir bod gwneud hynny'n briodol.

**Gyda phwy gallaf gysylltu?**

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol, defnyddiwch flwch post y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn communityfacilitiesproghelp@gov.wales neu fel arall cysylltwch â ni drwy'r manylion isod:

| | |
|---|---|
| Michael O'Shea | 0300 0628612 |
| Lois Hughes * | 0300 0625311 |
| James Maddaford | 0300 0255800 |
| Charlotte Page | 0300 0254959 |
| Lisa Clarridge | 0300 0628307 |

*Yn dynodi siaradwr Cymraeg